# PWYLLGOR PENODI

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robert G Parry OBE (Is-Gadeirydd yn y Gadair)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, D R Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Carwyn Jones, H E Jones, Jeffrey M.Evans a J A Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd a ganlyn:-

- 26 Mehefin, 2015
- 30 Mehefin, 2015

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**" Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 PENODIADAU STAFF**

**Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151**

Rhoddwyd un ymgeisydd ymlaen am gyfweliad yn dilyn adborth o'r broses benodi.

Rhoddodd yr ymgeisydd gyflwyniad, atebodd gwestiynau ar y cyflwyniad, ac yna atebodd set o gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

Yn dilyn y cyfweliad **PENDERFYNWYD penodi Mr. Richard Marc Jones i'r swydd uchod ac o ddyddiad i'w gytuno.**

**Y CYNGHORYDD BOB PARRY OBE**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**